iSee...

Siarter Amgylcheddol
Environmental Charter
Snowdonia-Active
Eryri-Bywiol

Ucheldiroedd Gogledd Cymru

Cysoni Cadwraeth a Hamdden

Siarter Amgylcheddol
Environmental Charter

Snowdonia-Active Eryri-Bywiol

Mae Llofnodwyr Siarter yn ceisio:

- Osgoi difrod i safleoedd a lleihau aflonyddu bywyd gwyllt a'r amgylchedd
- Sicrhau bod pob arweinydd grŵp yn deall rhagor am gynefinoedd, rhywogaethau, daeareg ac amgylcheddau Gogledd Cymru a sut i osgoi aflonyddwch a difrod
- Annog eraill i barchu bywyd gwyllt, tirweddau a bywyd cymunedol yng Ngogledd Cymru
- Gweithio gyda pherchnogion tir, cyrff statudol a phartïon eraill o ddiddordeb i reoli grwpiau yn y ffordd orau ar safleoedd presennol ac ystyried y canlyniadau cyn datblygu safleoedd newydd
- Parchu cynlluniau rheoli sy'n seiliedig ar gadwraeth sydd wedi eu cytuno a'u cyhoeddi
- Bod yn ystyriol tuag at berchnogion tir, preswylwyr a defnyddwyr eraill wrth barcio a gweithredu
- Annog grwpiau, cydweithwyr a myfyrwyr i barchu, diogelu a mwynhau nodweddion arbennig yr ardal – cynefinoedd, rhywogaethau, daeareg, archaeoleg a strwythurau a wnaed gan ddyn
- I drafod unrhyw adeiladwaith parhaol angenrheidiol gyda'r cyrff statudol a phartïon perthnasol
- Gadewch safle yn daclusach nag y bydd pan fyddwch yn cyrraedd yno ac ewch â sbwriel adref.

twitter
@nweocg

Find us on: facebook

www.facebook.com/nweocg

chartergroup@snowdonia-active.com

HEART OF ADVENTURE
CALON ANTUR

Ymwelwch â **www.snowdonia-active.org** i ddarganfod fwy am Eryri-Bywiol. Archwiliwch yr amrywiaeth wych o weithgareddau awyr agored sydd ar gael yng Ngogledd Cymru yn **www.outdoornorthwales.com**

Ucheldiroedd Gogledd Cymru

Mae poblogrwydd cynyddol gweithgareddau awyr agored yn golygu bod rhaid i ni i gyd fod yn ymwybodol o sensitifrwydd yr amgylchedd y mae ein gweithgarwch yn cael ei gynnal ynddo a chymryd camau i leihau ein heffaith bosib.

Mae ucheldiroedd Cymru'n dirweddau eiconig sy'n gartref i gynefinoedd a rhywogaethau prin; yn gyfoethog o ran diwylliant a diddordeb archeolegol; yn brosesau daearegol dramatig o flaen ein llygaid ni. Mae'r canllaw yma'n rhoi cyflwyniad i'r rhinweddau arbennig yma i'w rannu ag eraill.

Canllawiau eraill yn y gyfres:

- iSee Afonydd Gogledd Cymru
- iSee Arfordir Gogledd Cymru
- iSee Camlas Llangollen

Mentra'n Gall: Gofynnwch dri chwestiwn syml i chi'ch hun cyn mynd i ucheldiroedd Cymru: Oes gen i offer addas? Ydw i'n gwybod sut bydd y tywydd? Ydw i'n hyderus bod gen i'r wybodaeth a'r sgiliau ar gyfer y diwrnod? Am ragolygon y tywydd ac amseroedd y machlud a'r llanw a llawer mwy o gyngor ymarferol, bydd adventuresmart.uk yn rhoi atebion a gwybodaeth i chi i fod yn barod i gael diwrnod grêt a dod yn ôl adref yn ddiogel.

Cymru~Wales
ADVENTURE SMART.UK

rhostir a gweundir

gorgors

creigiau & chilfachau

glas-welltir

gwlyb-diroedd

ditectifs natur

cwmpawd natur

tirffurfiau

arfer gorau

ymwelwyr digroeso

Rhos Rhiwabon

Rhostir a Gweundir

Mae llawer o bobl yn gweld rhostir a gweundir ucheldir Cymru fel 'tir gwyllt' heb ei gyffwrdd i raddau helaeth gan bobl. Y realiti yw bod cymeriad yr eangderau anghysbell yma'n aml yn adlewyrchu cannoedd, os nad miloedd, o flynyddoedd o ymyrraeth gan ddyn. Mae llystyfiant ein rhostir a'n gweundir o dan linell y coed yn cael ei gynnal a'i gadw gan arferion rheoli fel pori, torri a llosgi sy'n atal prysgwydd a choed rhag sefydlu. Mae rhostir grug yn gynefin bregus a phrin yn rhyngwladol sydd wedi dioddef dirywiad difrifol yn ystod y 50 mlynedd diwethaf.

Rhostir a Gweundir

◀ Mae'r siapiau rhyfedd sydd i'w gweld yn aml ar rostir **grug** yn ganlyniad cyfuniad o losgi a thorri sy'n annog grug newydd i dyfu ac yn darparu porfa ffres i ddefaid.

▶ Mae'r lle y gelwir y grŵp *grugieir ddu* gwyrywaidd i'w arddangos i ddenu adar benywaidd yn lek yn Saesneg. Mae Rhos Rhiwabon, prifddinas saethu grugieir Gogledd Cymru ar un adeg, dal yn gartref i 80% o boblogaeth grugieir du Cymru.

▶ Mae **tresgl y moch** yn blodeuo rhwng mis Mai a Hydref. Yn y gwreiddiau mae lliw coch sy'n dal i gael ei ddefnyddio i weithgynhyrcu lliwiau artistiaid.

▶ Mae **mwyalchen y mynydd** yn fath o aderyn du. Mae i'w gweld ar ardaloedd garw o rostir rhwng misoedd Ebrill a Medi.

◀ Mae llwyni **llus** wedi'u gorchuddio gan aeron hardd ddiwedd yr haf. Maent yn dda i drin gwythiennau chwyddedig a hemoroidau yn ôl y sôn.

◣ Y **wiber** yw'r unig neidr sydd i'w gweld cyn belled i'r gogledd â Chylch yr Arctig. Mae'n cael ei pharchu yng Nghymru am ei nodweddion sy'n gwella pobl. Credid bod ychwanegu powdwr ei chroen at gawl yn gwella rhwymedd.

corhedydd y waun

Gorgors

Mae gorgorsydd ucheldirol lle mae priddoedd mawn yn 'flanced' ar lethrau bryniau nid yn unig yn llefydd hardd ac ysbrydoledig i ymweld â hwy ond hefyd mae'r dŵr o ansawdd uchel sy'n draenio ohonynt yn cynnal ecosystemau dyfrol iach ac yn darparu'r rhan fwyaf o'n dŵr yfed ni. Mae priddoedd mawn yn cynnwys mwy o garbon nag unrhyw fath arall o bridd. Gall tarfu ar y mawn a'r priddoedd drwy ddraenio a newid defnydd tir arwain at ryddhau carbon deuocsid i'r atmosffer, gan gyfrannu at newid hinsawdd.

◀ Mae **tafod y gors** yn tyfu mewn priddoedd gwael ac yn ategu ei ddeiet drwy ddal pryfed ar ei ddail gludiog a'u treulio.

▼ Mae rhywogaethau o **fwsogl Sffagnwm** yn elfen bwysig mewn corsydd mawn. Gall planhigion byw a marw ddal hyd at 20 gwaith eu pwysau sych eu hunain y tu mewn i'w celloedd. Mae'r celloedd gwag yn helpu i ddal dŵr mewn amodau sychach. Felly wrth i fwsogl Sffagnwm dyfu gall ledaenu'n araf i ardaloedd sychach gan arwain at ffurfio mignau mwy, fel cyforgorsydd a gorgorsydd. Dadelfennau rhannol ar fwsoglau sffagnwm a phlanhigion cysylltiedig mewn amodau asidig, dwrlawn sy'n arwain at ffurfio mawn.

◀ Hesg, nid glaswellt, yw **plu'r gweunydd**. Defnyddid y 'cotwm' gwyn fflwfflyd i lenwi gobennydd, yn lle plu gwyddau. Ond nid yw'r darnau o gotwm yn ddigon hir i'w nyddu'n edafedd neu eu gwehyddu'n ddillad.

▶ Rydym yn adnabod *chwys yr haul* oddi wrth ei lobylau neithdar gludiog, sy'n dal pryfed diniwed. Maent yn feddyginiaethol yn ôl y sôn ac yn cael eu defnyddio i wella cyflyrau fel defaid a chyrn, asthma a broncitis.

◀ Y **cudyll bach** yw aderyn ysglyfaethus lleiaf y DU.

▶ Mae'r **cwtiad aur** yn gallu hedfan am hyd at 88 awr heb stopio gan deithio 2500 o filltiroedd.

tormaen porffor

Creigiau a Chilfachau

Gwelir cymunedau o blanhigion arctig alpaidd yn rhai o gilfachau creigiog ucheldiroedd Gogledd Cymru. Maent yn greiriau botanegol sy'n ein cysylltu ni â chyfnod o rewlifau'n toddi, mamothiaid a rhew parhaol. Mae rhywogaethau arctig alpaidd yn tueddu i dyfu mewn matiau neu glustogau ac mae eu tymor blodeuo'n fyr, sy'n golygu eu bod yn cael eu gwarchod rhag tywydd gerwin y gaeaf.

Creigiau a Chilfachau

◀ Dim ond ar rai siliau a wyneb y graig mae **lili'r Wyddfa** i'w gweld, allan o gyrraedd anifeiliaid yn pori. Eryri yw ei hunig leoliad yn y DU hyd y gwyddom ni.

▶ Mae **cnwpfwsoglau** i'w gweld ers bron i 400 miliwn o flynyddoedd. Filiynau o flynyddoedd yn ôl roedd cnwpfwsoglau a rhywogaethau eraill yn cyfrif am y rhan fwyaf o'r deunydd organig y mae glo wedi ffurfio ohono.

◀ Yn cael eu defnyddio erbyn hyn i roi blas ar gin, defnyddid **meryw** yn yr Oesoedd Canol i wella cyflyrau amrywiol, gan gynnwys gwynt, y mae olew meryw yn dal i gael ei ddefnyddio ar ei gyfer heddiw.



▶ Mae **cen** yn gyfuniad manteisiol o ffwng ac alga. Mae cennau angen aer glân i dyfu ac maent yn cael eu defnyddio fel arwyddion o ansawdd yr aer.

◀ I'w canfod yn aml mewn ardaloedd creigiog ar rostir agored, mae cri **clochdar y cerrig** yn debyg iawn i sŵn dwy garreg yn cael eu taro yn erbyn ei gilydd.

▶ Pur anaml y gwelir **madfall gyffredin** – mae'n rhedeg am gysgod os terfir arni. Os bydd ysglyfaethwr yn ymosod arni, gall ddiosg ei chynffon ac wedyn tyfu un newydd.

clychau'r eos

Glaswelltir

Mae glaswelltiroedd ucheldiroedd Gogledd Cymru'n ganlyniad i genedlaethau o bori gan ddefaid, geifr ac, mewn rhai ardaloedd, merlod mynydd. Mae gorbori wedi arwain at ungnwd o gawn du mewn rhai ardaloedd. Mae bioamrywiaeth wedi gwella yn sgil lleihau pori, ond gall rhywogaethau eraill fel rhedyn ddod yn broblem wedyn, gan ddangos ei bod yn anodd cynnal cydbwysedd ym myd natur drwy reolaeth ofalus ar dir.

gweirlöyn bach y waun

tormaen serennog

Glaswelltir

◀ Mae **cawn du'n** galed a ffibrog a dim ond defaid sy'n ei fwyta, yn y gwanwyn. Felly gall reoli a lledaenu mewn ardaloedd o bori trwm. Ceir llai o rywogaethau o blanhigion mewn cawn du na mewn ardaloedd o lystyfiant mwy naturiol.

▶ **Tamaid y cythraul** Yn ôl y chwedl, aeth y diafol yn flin am nodweddion meddyginiaethol y blodyn yma a cheisiodd gael gwared arno drwy frathu'r gwreiddiau oddi arno. A dyma sut mae wedi cael ei enw.

▶ Mae **larfa sbonciwr** yn gwarchod eu hunain gyda haen o ewyn, sy'n cael ei adnabod fel poeri'r gog.

◀ **Hafod a hendre** yw'r enw a roddir i'r symud tymhorol traddodiadol ar dda byw ym mynyddoedd Cymru. Bydd defaid yn cael eu symud i'r hafod, sef fferm ar y porfeydd uwch, yn ystod yr haf, ac yn ôl i'r hendre, prif ddaliadaeth y fferm, dros y gaeaf. Mae'r enwau hyn yn gyffredin ar ein mapiau ni.

▶ Mae gan **eithin** flodau bwytadwy sy'n arogli ac yn blasu'n debyg i gnau coco. Gellir eu defnyddio fel cyfrwng blasu neu ar gyfer gwneud te.

cylionyn Mai

Gwlybdiroedd

Gall ardaloedd gwlyb yn yr ucheldir, sgydau, corsydd, ffeniau a siglenni, fod ar briddoedd mawnog neu fwynau ac maent yn ddwrlawn am y rhan fwyaf o'r flwyddyn. Y prif blanhigion ynddynt yw hesg, brwyn, glaswelltau a mwsoglau a rhai planhigion y gwlybdir, fel ffa'r gors. Mae llynnoedd ac afonydd yr ucheldir yn tueddu i fod yn asidig, gyda lefel isel o faethynnau, felly, yn naturiol, nid ydynt yn gartref i lawer o rywogaethau. Mae dŵr sy'n rhedeg yn serth fel rheol, gyda gwely o greigiau a cherrig crynion; mae eu cyfraddau llifo'n amrywio gyda glaw trwm ac eira'n toddi. Mae'r pryfed sydd i'w gweld yma'n cynnwys pryfed y cerrig, cylion Mai a phryfed caddis, sy'n cael eu hela gan eogiaid a brithyll ac adar fel trochwyr.

Gwlybdiroedd

◀ Gall fod yn anodd dweud y gwahaniaeth rhwng **hesg** a brwyn felly cofiwch 'does gan hesg ddim ymylon, mae brwyn yn grynion, gwag yw glaswelltau bob un tro, beth welwch chi wrth fynd am dro?'

▶ Roedd canhwyllau brwyn yn fath o gannwyll a ddefnyddid gan dlodion yr 17eg a'r 18fed ganrif. Roeddent wedi'u gwneud o **frwynen babwyr** oedd yn cael eu trochi mewn braster anifeiliaid.

◀ Benyw y **gwas y neidr eurdorchog** yw gwas y neidr hiraf y du.

▶ Ar ôl blodeuo ym misoedd Gorffennaf ac Awst, mae pigau blodau hardd **llafn y bladur** yn ildio'u lle i ffrwythau oren llachar.

◀ Mae **pibydd y dorlan** i'w weld yn aml ar lan nentydd mynyddig, ac mae Cwm Idwal yn lle da i'w weld.

▶ Mae **grug croesddail** yn fath o rug sy'n cael ei enw gan y troellau nodedig o bedair deilen sydd i'w gweld ar hyd ei goesynnau.

Ditectifs Natur

Beth am fod yn dditectif natur drwy ddysgu sut i adnabod rhai o'r cliwiau niferus yn yr amgylchedd o'ch cwmpas chi? **Pwy sy'n ble? Chwiliwch am olion traed anifeiliaid ar dir meddal, yn enwedig ar hyd afonydd a nentydd.**

▶ Mae gan olion traed **llwynogod** bedwar ôl bys cymesur gyda dau yn y blaen a dau yn yr ochr. Maent yn siâp diemwnt a chul fel rheol (50mm o hyd wrth 35mm o led). Weithiau, mae modd gweld olion blew rhwng y bysedd.

◀ Mae gan **ddyfrgwn, mincod, carlymod** a **gwencïod** olion traed tebyg i gyd - pum bys a bawd mewn siâp seren. Efallai fod olion crafangau i'w gweld, yn enwedig ar dir meddal, ond maent yn rhan o wadn y bysedd yn aml. Olion traed dyfrgwn yw'r mwyaf (cefn y droed hyd at 60mm o led a 90mm o hyd, blaen y droed ychydig yn fyrrach).

Cwmpawd Natur

Oeddech chi'n gwybod bod siâp coed noeth yn gallu dweud wrthych chi i ba gyfeiriad rydych chi'n wynebu?

Yn aml iawn penderfynir ar siâp coed noeth gan y gwynt cryfaf. Yn y DU, o'r de orllewin y daw'r gwynt cryfaf, sy'n golygu bod brig y coed noeth yn dangos cribo o'r de orllewin i'r gogledd ddwyrain yn aml.

Hefyd mae'r haul yn effeithio ar siâp coed. Mae'r canghennau ar yr ochr ddeheuol yn tueddu i dyfu'n fwy llorweddol, allan tua'r haul, ond mae'r canghennau gogleddol yn y cysgod yn tueddu i dyfu am i fyny, yn nes at fertigol, gan chwilio am fwy o haul. Bydd yr ochr sy'n cael y mwyaf o haul, yr ochr ddeheuol yn y DU, yn tyfu'n fwy trwchus hefyd, ac yn ymddangos yn 'drymach' na'r ochr sydd yng nghysgod dail y coed eu hunain.

dyffryn siâp pedol

Tirffurfiau

Mae daeareg Gogledd Cymru'n eithriadol gymhleth. Mae'r creigiau'n hen iawn, wedi'u ffurfio ryw 460 miliwn o flynyddoedd yn ôl, ac er bod y rhan fwyaf o'r creigiau'n folcanig, ceir creigiau llifwaddodol hefyd, wedi'u ffurfio gan y môr a orchuddiai lawer o Gymru bryd hynny. O ychwanegu symudiad y platiau tectonig ac erydiad gan ddŵr a rhew dros filenia at hyn, mae posib dechrau dirnad cymhlethdod yr hyn rydych chi'n ei weld o'ch cwmpas.



◀ Mae **plygu'n** digwydd pan mae'r graig yn cael ei chywasgu dros gyfnodau daearegol hir, fel pan mae platiau tectonig yn gwrthdaro. Mae'n haws gweld y plygion mewn creigiau llifwaddodol, gyda'r gwastadoedd sylfaen yn olrhain patrwm y plyg. Un esiampl wych yw'r synclin (siâp ceugrwm yn troi am i fyny) yng nghefn Cwm Idwal.

▶ **Rhewlifiant** Siapiwyd y mynyddoedd yma heddiw gan 400 miliwn o flynyddoedd o erydiad gan ddŵr a rhew. Ar un adeg roedd mynyddoedd Eryri'n 7,000m o uchder, ond mae erydiad y milenia wedi eu gwisgo i lawr a nawr dim ond 1,085m yw'r copa uchaf, sef yr Wyddfa.



Arête Crib gul o graig yn gwahanu dau ddyffryn, fel Crib Goch.

◀ Mae **meini dyfod** yn feini afreolaidd mawr sydd i'w gweld mewn llefydd rhyfedd. Maent wedi cael eu cludo i'w man gorffwys mewn neu ar rew y rhewlifau wrth iddo symud.

▶ Ffurfir **marianau** pan fydd rhewlifau'n stopio symud ac wedyn yn gollwng y gweddillion maent wedi bod yn eu cludo.

◀ **Copaon pyramidaidd** Copaon mynyddoedd onglog, pigfain wedi'u siapio gan erydiad rhewlifau niferus yn dod at ei gilydd i bwynt canolog.

Cyfarwyddyd arfer gorau ar gyfer y rhai sy'n llai cyfarwydd ag amgylchedd y mynydd i chi ei rannu gyda'ch grwpiau.

Sbwriel

Mae **sbwriel** yn broblem gynyddol yn y mynyddoedd. Ychwanegwch at eich sesiwn drafodaeth ar effaith sbwriel ac fel grŵp ewch ati i gasglu unrhyw sbwriel y dewch ar ei draws. Rhaid cyfathrebu nad oes unrhyw wastraff 'derbyniol', dim hyd yn oed gwastraff biobydradwy, fel croen banana a chanol afal. Mae'n cymryd 2 flynedd i groen oren ddadelfennu!

Adar sy'n Nythu ar y Ddaear

Adar Sy'n Nythu ar y Ddaear Gall cŵn rhydd gael effaith niweidiol sylweddol ar lwyddiant magu adar sy'n nythu ar y ddaear. O dan Ddeddf CROW, rhaid i gŵn ar dir mynediad agored gael eu cadw ar dennyn byr rhwng 1 Mawrth a 31 Gorffennaf i atal tarfu ar dda byw ac adar sy'n nythu ar y ddaear.

Nofio Gwyllt

Nofio yn y Gwyllt Os ydych chi'n ystyried nofio mewn llynnoedd yn yr ucheldir, gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw drawslygru'n digwydd rhwng cyrff o ddŵr drwy osgoi nofio mewn unrhyw lynnoedd eraill cyn eich ymweliad. Dilynwch ganllawiau'r ymgyrch 'Gwirio, Glanhau, Sychu – Check, Clean, Dry'.

Gwersylla Gwyllt

Nid ydym yn annog **gwersylla yn y gwyllt** yn ucheldiroedd Gogledd Cymru. Mae sawl safle gwersylla gwych ar gael yn yr ardal, yn amrywio o rai sylfaenol iawn i rai â chyfleusterau llawn. Os ydych chi'n ystyried gwersylla yn y gwyllt, dilynwch y cod ymddygiad ar gyfer gwersylla yn y gwyllt bob amser a cheisio lleihau eich presenoldeb gweledol drwy ddefnyddio pabell â lliw addas a'i chodi ar ôl iddi dywyllu. Cofiwch gefnogi'r egwyddor o beidio â gadael unrhyw olion o gwbl.

Carneddi

Mae **pentyrrau o gerrig** yn niweidio cynefinoedd bregus fel rhostir a sgri, a hefyd yr anifeiliaid a'r planhigion cysylltiedig â hwy. Hefyd gallant achosi llwybrau troed newydd sy'n gwaethygu'r erydu yn y mynyddoedd, ac arwain at bobl ddim yn defnyddio map neu gwmpawd i ddod o hyd i'w llwybr. Cofiwch annog unigolion i ymatal rhag ychwanegu neu adeiladu pentyrrau o gerrig.

Ymwelwyr Digroeso

Yr enw ar rywogaethau a gyflwynir o lefydd eraill yw rhywogaethau estron. Mae'r rhan fwyaf yn ddidrafferth; mae eraill yn ffynnu ac yn gallu creu canlyniadau difrifol i fywyd gwyllt brodorol. Rhywogaethau estron ymledol yw'r rhain. Gallwch gofnodi eu gweld yn cofnod.org.uk - os oes modd, tynnwch lun.

▶ Gall **rhododendron** wrthsefyll amrywiaeth eang o amodau amgylcheddol ac felly mae'n gallu cael y gorau ar lawer o blanhigion brodorol, gan ymledu a chreu clystyrau trwchus dros ardaloedd eang ac arwain at leihau niferoedd y rhywogaethau brodorol o blanhigion a phryfed.

◀ Cyflwynwyd **ffromlys chwarennog** fel planhigyn gardd yn 1839. Mae ei gibau hadau ffrwydrol yn anfon hadau i afonydd gan ledaenu ar hyd y glannau i lawr yr afon. Mae clystyrau trwchus ohono'n lleihau twf glaswelltau brodorol a phlanhigion eraill. Yn yr hydref mae'n marw gan adael glannau noeth heb lystyfiant, sy'n fwy tebygol o erydu.

◀ Cyflwynwyd **canclwm Japan** i'r DU o Japan yn y 19eg Ganrif fel planhigyn gardd. Gall y system wreiddiau ymledol a'r twf cadarn ddifrodi adeiladau ac mae'n ei wneud yn anodd ei reoli.

Cydnabyddiaeth am y lluniau:

Kris Williams (Clawr Blaen/Cefn), Chris Davies (Rhos Rhiwabon), Maggie Cox bit.ly/2OcjDpH CC[1] (Rhostir a Gweundir), northeastwildlife.co.uk (cigfran, mwyalchen y mynydd, sffagnwm, plu'r gweunydd, chwys yr haul, hebog tramor, cen, clochdar y cerrig, madfall gyffredin, bwtsias y gog, glöyn bach y waun, sbonciwr, eithin, cylionyn Mai, trochwr, llafn y bladur, pibydd y dorlan), Stuart Maddon bit.ly/2NEdumL CC[1] (criafolen), Clwydian Range and Dee Valley AONB (Grug yn llosgi), Mark Andrews bit.ly/2N69feM CC1 (Grugiar Ddu), Andrew Curtis bit.ly/2Id2LK1 CC1 (Llus), CC0 (tresgl y moch), Ron Knight bit.ly/2If4qPr CC[1] (corhedydd y waun), Richard Law bit.ly/2Dtbau1 CC[1] (Gorgors), S Rae bit.ly/2xDbYqV CC[1] (tafod y gors), bit.ly/2OAy0ko via Wikimedia Commons (Cudyll Bach), Derek Harper bit.ly/2OMVK5b CC[1](cwtiad aur), Nigel Jones (tormaen glasgoch), bit.ly/2Q61es1 (Creigiau a Chilfachau), Andrew Curtis bit.ly/2N149jQ CC[1] (rhedyn persli), Velela bit.ly/2DtIUYh CC[2] (Lili'r Wyddfa), Robbie Blackhall-Miles (ccnwpfwsogl, tormaen serennog), © Can Stock Photo Inc. / MauMyHaTa (meryw), Eirian Evans bit.ly/2NEIN1N CC[1] (Glaswelltir), Malcolm Storey bit.ly/2N1zjY4 (cawn du), bit.ly/2OL2kZU CC[3] (Hesg) Emma Edwards-Jones (tamaid y cythraul), Trevor Littlewood bit.ly/2OPWeYl CC[1], Peter S bit.ly/2OPFVL8 CC[1] (Gwlybdiroedd), Lairich Rig bit.ly/2xRY5om CC[1] (ffa'r gors), Christian Fischer bit.ly/2xBADMy CC[2] (cannwyll brwyn), Gail Hampshire bit.ly/2IeWUDT CC[1] (gwas y neidr eurdorchog), The Wildflower Society bit.ly/2OPkry1 (grug croesddail), Dave Webb bit.ly/2IeT5yE (olion dyfrgi), Juan Lacruz bit.ly/2OcAj0g CC[2] (olion llwynog), Geraint Roberts bit.ly/2zsaelR CC[1] (Cwmpawd Natur), Bill Boaden bit.ly/2Q4vcfT CC[1] (dyffryn siâp pedol), Arfon Davis (Tirffurfiau), Barbara Jones (Plygion, Rhododendron), Ray Wood (Rhewlifiant), Garry Smith (Arête, Copaon Pyramidaidd), Chris Andrews bit.ly/2Oa7h1b CC[1] (Meini Dyfod), Jonathan Wilkins bit.ly/2Dv3eZn CC[1] (Marianau), Evelyn Simak bit.ly/2IeYfup CC[1] (Ffromlys Chwarennog), Roger Kidd bit.ly/2OQpM8i CC[1] (canclwm Japan). CC[1] - bit.ly/1dsePQq, CC[2] - bit.ly/1kvyKWi, CC[3] - bit.ly/1jPpEzg

Adnoddau Eraill:

Nature of Snowdonia: A beginner's guide to the upland environment. Mike Raine (2010) Pesda Press. **Codau Cefn Gwlad:** naturalresources.wales/days-out/the-countryside-codes. \
Bas Data Mynediad Rhanbarthol BMC: www.thebmc.co.uk/rad

Mae ISee Ucheldiroedd Gogledd Cymru wedi cael ei greu gan Eryri-Bywiol mewn partneriaeth â Chyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, BMC, Mountain Training Cymru.

Mae'r llyfryn hwn ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg.

© Eryri-Bywiol 2018

Canllaw maes i Ucheldiroedd Gogledd Cymru

Parc Cenedlaethol Eryri
Snowdonia National Park

BMC

Snowdonia-Active
Eryri-Bywiol

Mountain Training

Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty